Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol
Amddiffyn Plant a Chwaraeon - 7 Mawrth 2017

Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd Jayne Bryant a Vivienne Laing o'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)

**James Owens, Rheolwr, Chwaraeon Cymru**

- Mae cymaint o fanteision i bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, rydym i gyd yn deall hyn ac yn ceisio hyrwyddo chwaraeon cymaint â phosibl.
    - Y nod yw ceisio cael 75 y cant o blant i gymryd rhan mewn chwaraeon erbyn 2026, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda tua 50 y cant.
- Fel cenedl, mae gennym bwysoliad llawer uwch o ran talent, er enghraifft yn gemau'r gymanwlad a'r gemau Olympaidd. Rydym yn perfformio'n rhyfeddol o dda.
- Mae gennym swyddog penodol llawn amser sy'n canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth (â'r NSPCC, drwy'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon) â rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael ag amddiffyn plant mewn chwaraeon.
    - Rydym yn gweithio gyda 52 o gyrff llywodraethu, ac yn canolbwyntio ar y 25 o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd.
    - Mae'r swydd yn swydd 12 mis, a daw i ben cyn bo hir - Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio mewn partneriaeth.
- Rydym wedi gweld bod cyrff llywodraethu yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr.
- Ym myd chwaraeon, mae popeth yn gyhoeddus a dyma'r materion y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy.
    - Rydym yn dibynnu llawer iawn ar wirfoddolwyr, aelodau'r teulu i ddod a helpu a rhedeg clybiau lleol.
      Heriau:
        - Cynnydd anferth yn y galw
        - cefnogi cyrff llywodraethu llai
        - bylchau yn y ddarpariaeth

Os yw'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon am wynebu'r heriau a ganfuwyd, mae angen i NSPCC, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru ganfod union faint yr her a rhoi'r adnoddau i'r gwasanaeth i adlewyrchu hynny.

**Ann Tiivas, Cyfarwyddwr yr Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon, NSPCC**

- Rydym yn gweithio gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol a gaiff eu cyllido, i sicrhau bod safonau diogelu NSPCC mewn chwaraeon yn cael eu bodloni.
    - Gydag arbenigedd, gellir helpu i ganfod ble mae'r bylchau.
    - Mae fframwaith yn bodoli eisoes ar gyfer atal cam-drin plant mewn chwareon
- Mae'r problemau'n deillio o'r trosiant cyson yn y bobl sy'n gysylltiedig â chwaraeon, mae'r gwirfoddolwyr yn newid yn gyson.

- Rydym wedi cynnal rhaglen beilot yn casglu data yng Nghymru ac wrthi'n treialu casglu gwybodaeth gan yr un sefydliadau.
- Rydym wrthi'n sefydlu grŵp ymchwil a thystiolaeth i Gymru.
  - Cwestiwn cyfferdin gan rieni yw - beth y gallaf ei wneud i gadw fy mhlentyn yn ddiogel?
  - Gweithio i ddatblygu pecynnau cymorth i rieni.
- Anelu at godi proffil yr hyn y mae chwaraeon wedi bod yn ei wneud i ddiogelu plant.
  - Mae ymrwymiad cryf o du chwaraeon i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae llawer o waith ar y gweill.
- Un rhwystr yw ei bod yn anodd ymgysylltu â grwpiau gwirfoddol - mae'r grwpiau o bobl yn newid, a chaiff pethau eu trefnu mewn ffordd anffurfiol.
  - Mae angen i ni ddysgu sut i ddarbwyllo pobl i ymgysylltu.

Yr effaith ar wasanaethau/sefydliadau chwaraeon:
- Ers i honiadau gael eu gwneud, mae'r Uned wedi cael llawer o geisiadau am wasanaethau, pobl am gymryd rhan a gwneud popeth posibl i'w newid.
- Mae gan lawer o sefydliadau ddiddordeb, ac wedi gofyn cwestiynau.
  - Felly hefyd gyda sefydliadau caeëdig, mae rhai yn fwy anodd ymgysylltu â hwy.
  - Yr argraff gyda rhai yw os ydynt yn ymgysylltu â'r gwasanaethau ychwanegol hyn, eu bod yn cyfaddef fod problem cam-drin plant mewn chwaraeon.
- Cod llywodraethu ar gyfer y DU gyfan - dangos cryfder llywodraethu mewn diogelu.
  - Mae mwy o angen wrth i blant symud tuag at lwybrau gyrfa ym maes chwaraeon.
  - Dylid cymryd camau i gau'r bylchau
- Y berthynas â diwydiannau chwaraeon - mae angen eu meithrin er mwyn gallu trafod y materion yn iawn
  - Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant anabl yn wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin ym maes chwaraeon na mewn meysydd eraill.
  - Mae plant talentog ar lwybrau elit - yr uchaf y maent ar yr ysgol, y mwyaf o risg y maent yn ei wynebu.

Nid oes digon yn cyrraedd y System Cyfiawnder Troseddol, mae'r cyfan yn aros yn y maes chwaraeon.  Mae tueddiad i effeithio mwy ar y grwpiau hawdd eu niweidio.

Y DU sydd bellaf ar y blaen o ran cynnydd - ond nid oes lle i fod yn huanfodlon o ran mynd i'r afael â'r mater hwn.

- Mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn ceisio sicrhau bod pobl anabl yn cael mwy o gyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon.  Mae angen diogelu hyn.

**Jeremy Rogers, Undeb Rygbi Cymru**
- Y prif nod cyffredinol i'r Undeb yw creu amgylchedd diogel, cadarnhaol - gan sicrhau diogelwch, a hyrwyddo arferion da o ran addysg hyfforddi

- Mae angen i ni asesu ein sefyllfa, yr heriau sy'n ein hwynebu, a'r nod nesaf i ni.
    - Mae pethau'n datblygu drwy'r amser, er enghraifft, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnig heriau newydd.
- Mae'n bwysig herio arferion gwael - sicrhau bod pobl yn deall y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rolau.

Mae gan 95 y cant o glybiau swyddog dioglu erbyn hyn - a llawer ohonynt o gefndir asiantaethau. Mae mwy a mwy o adnoddau ar gael bellach - yn Gymraeg ac yn Saesneg

- Rydym yn trafod 'polisi drws agored' sy'n tynnu sylw at y ffaith bod angen i ddiogelu fod yn flaenllaw - sicrhau bod dulliau gwirio priodol ar gael o'r dechrau
- Drwy fuddsoddi mewn clybiau a staff, gallwn fynd i'r afael â hyn yn fewnol, a chydweithio'n effeithiol i frwydro yn ei erbyn.
    - Cydweithio gyda'n gilydd ac ymgysylltu ag egwyddorion gweithdrefnau amddiffyn plant.
    - Sicrhau ein bod yn defnyddio'r pŵer i atal/cynnig amodau newydd
    - Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn deall beth yw eu cyfrifoldebau.
    - Darparu deunyddiau ar gyfer rhieni/gwirfoddolwyr sy'n rheini
- Diogelu gwirfoddolwyr - darparu hyfforddiant cychwynnol
    - Cyfarfodydd personol a gwirio
    - Hyfforddiant amser i wrando gyda NSPCC

Sicrhau bod amddiffyn, gwirio a safonau ar gyfer diogelu plant yn cael eu llywio o'r brig, a bod holl aelodau'r bwrdd rheoli yn deall

- Mae'r Undeb yn cynnal adolygiad trylwyr gyda NSPCC bob blwyddyn - gellir ystyried cyflwyno hynny mewn mannau eraill, adolygiad blynyddol o bolisïau/gweithdrefnau
- Dull gyda'r plentyn yn ganolog er mwyn codi nifer y bobl sy'n cymryd rhan
- Sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaeth - y mwyaf hawdd i'w niweidio sy'n wynebu'r risg mwyaf
    - Gweithio i lenwi'r bylchau, hyfforddwyr i helpu i ddeall sut i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hyn.
- Hyrwyddo bod yn agored a chyfathrebu

Sicrhau bod sefydliadau yn deall y gall gymryd amser i gyrraedd safonau lefel 3 - ond mae angen cefnogi'r cynnydd

**Claire Short, Stop it Now! Cymru**

- Mae Lucy Faithfull yn canolbwyntio ar ddarparu recriwtio diogel ledled Lloegr ac mae sawl agwedd y gellir ei chyflwyno yng Nghymru
    - Fel y soniodd Jeremy am ddiogelu'r drws agored, mae angen mynd i'r afael â'r broblem o'r dechrau a gweithio ar ffordd ataliol.
- Nid oes cofnod canolog o honiadau ar hyn o bryd.

Bichard Inquiry 2004

- Canfod y bobl nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant: rhaid deall cymhellion, arwyddion a dangoswyr y bobl hyn.

Hyrwyddo bod yn agored a thryloyw
- mae cam-drin rhywiol yn ffynnu ar gyfrinachau - a ydym wedi gwneud digon i fynd i'r afael â hyn?

**Cwestiynau:**
Rôl y gwirfoddolwyr - sut y mae mynd i'r afael ac atal cam-drin plant heb rwystro rhieni rhag cynnig cynorthwyo? (mae sefydliadau chwaraeon cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr - mae eu hangen o hyd i gymryd rhan). Mae chwaraeon yn werthfawr iawn i blant ac mae angen i ni ddarparu'r cyfleoedd hyn heb eu peryglu. Mae angen i ni fod yn ymwybodol, hefyd, o wirfoddoli anffurfiol (rhieni'n cludo mwy nag un plentyn ac ati)
- Pa brosesau y gellid eu defnyddio yma?
- Sut y mae sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu a throi pobl i ffwrdd?

Mae'n rhaid i ni fod mewn sefyllfa i sicrhau bod hyn yn cyrraedd y safon.

Bydd cyfarfod briffio dilynol yn cael ei drefnu ar ddyddiad addas i'r Aelodau sydd â diddordeb.